Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

# CAIS I'R PWYLLGOR SAFONAU AM OLLYNGIAD

Nodwch fod yn RHAID llenwi pob adran. Cyfeiriwch at y Nodiadau Cyfarwyddyd atodedig wrth lenwi'r ffurflen hon.

## 1. EICH MANYLION

Eich enw llawn: Myfanwy Miles Jones

Enw eich Cyngor: Cyngor Cymuned Llanarthne

## 2. MANYLION AM EICH BUDDIANT

Beth yw'r mater o dan ystyriaeth?

Trosglwyddo trydan o Barc Ynni Nant Mithil, Fforest Clud ym Maesyfed ac o bosib datblygiadau parc ynni eraill i gysylltiad grid yn Sir Gaerfyrddin

Beth yw eich buddiant yn y mater uchod?

1. Mae fy eiddo o fewn y coridor arfaethedig gwreiddiol ar gyfer codi peilonau. Derbyniais y llythyr rhagarweiniol o Bute am wneud gwaith arolygu.
2. Pe bai peilonau'n cael eu codi, mae'n debygol y byddent i'w gweld o fy eiddo.
3. Pe bai peilonau'n cael eu codi, byddai effaith bosib ar werth fy eiddo.

Pryd fydd y mater uchod yn cael ei ystyried?

Mae'n debygol y bydd y mater yn cael ei drafod o bryd i'w gilydd dros y tair neu bedair blynedd sydd i ddod.

A ydych yn gwneud cais am ollyngiad i:

Siarad yn unig: ☐

Siarad a phleidleisio: ☐x

Gwneud sylwadau ysgrifenedig ☐ x

Arfer Pwerau Gweithrediaeth ☐

3. RHESYMAU DROS OLLYNGIAD

Mae rheoliadau a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn pennu'r amgylchiadau lle gall y Pwyllgor Safonau ganiatáu gollyngiad. Ceir crynodeb o'r rhesymau dros ganiatáu gollyngiad isod ac maent wedi'u nodi'n llawn yn y nodiadau cyfarwyddyd atodedig. Am ba un o'r rhesymau canlynol ydych chi'n credu y dylid caniatáu gollyngiad yn yr achos hwn? Ticiwch y blwch/blychau priodol.

| | |
|---|---|
| • mae buddiant gan o leiaf hanner yr aelodau sy'n ystyried y busnes | ☐ |
| • byddai fy anallu i gymryd rhan yn newid cydbwysedd gwleidyddol y cyfarfod i raddau a fyddai'n debygol o effeithio ar y canlyniad; | ☐ |
| • ni fyddai'r ffaith fy mod yn cymryd rhan yn niweidio hyder y cyhoedd | ☐x |
| • mae'r buddiant yn gyffredin i mi ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd; | ☐x |
| • mae cyfiawnhad i mi gymryd rhan yn y busnes oherwydd fy rôl neu arbenigedd penodol; | ☐x |
| • bydd y busnes yn cael ei ystyried gan bwyllgor trosolygu a chraffu ac nid yw fy muddiant yn fuddiant ariannol; | ☐ |
| • mae'r busnes yn ymwneud â materion ariannol neu eiddo corff gwirfoddol yr wyf yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli ac nid oes gennyf unrhyw fuddiant arall | ☐ |
| • mae'n briodol gwneud hynny yn yr holl amgylchiadau lle nad yw'n bosibl fel arall gwneud addasiadau rhesymol i ddarparu ar gyfer anabledd person | ☐ |

## 4. GWYBODAETH I GEFNOGI EICH CAIS

Nodwch isod y rhesymau pam rydych yn credu y dylai'r Pwyllgor Safonau ganiatáu gollyngiad yn yr achos hwn:

***(Sylwch, os na fyddwch yn llenwi'r adran hon bydd y ffurflen gais yn cael ei dychwelyd atoch)***

Er fy mod yn byw yn y corridor posib ar gyfer y codi’r peilonau yma, fel Cynghorydd cymuned, mae’n bwysig fy mod yn dal I ally mynegi barn a gofidiau pobl y gymuned. Ni fyddwn yn wgnedu fy ngwaith yn iawn fel Cynghorydd Cymuned os na fyddwn yn lleisio eu barn hwy.

Cadarnhaf fod y wybodaeth a roddir ar y ffurflen hon yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth. Rwy'n cytuno y gall y cais hwn a'r holl wybodaeth a gynhwysir ynddo ffurfio rhan o adroddiad cyhoeddus i'r Pwyllgor Safonau. Rwy'n gwneud cais am ollyngiad mewn perthynas â'r mater uchod.

| Llofnod: | M M [signature] | Dyddiad: | 15 / 3 / 2023 |
|---|---|---|---|

Dylech ddychwelyd y ffurflen hon at y Swyddog Monitro, Adran y Prif Weithredwr, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP / Swyddogmonitro@sirgar.gov.uk

**Nodiadau Cyfarwyddyd**

**(1)** Dylech ddarllen y Côd Ymddygiad a phenderfynu pa un o'r paragraffau sydd fwyaf priodol yn eich achos chi. Ceir manylion cryno am y paragraffau perthnasol yn y tabl isod. Os nad ydych yn sicr, cysylltwch â'r Swyddog Monitro i gael cyngor.

| **Para.** | **Y math o fuddiant personol** | |
|---|---|---|
| 10(2)(a) | Busnes y Cyngor sy'n ymwneud â'r canlynol, neu'n debygol o effeithio ar y canlynol:<br>• eich cyflogaeth neu'ch busnes<br>• eich cyflogwr, busnes neu'ch cwmni<br>• contract a wnaed rhwng y Cyngor a chi<br>• unrhyw dir, prydles neu drwydded y mae gennych fuddiant ynddynt<br>• corff cyhoeddus neu gymdeithas arall yr ydych yn aelod ohonynt neu lle'r ydych yn dal swydd reolaeth gyffredinol | |
| 10(2)(c) | Busnes y Cyngor sy'n effeithio eich lles neu'ch sefyllfa ariannol, neu les, sefyllfa ariannol neu fuddiannau eraill person yr ydych yn cyd-fyw ag ef/hi neu y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef/hi | |
| 13 | Busnes y Cyngor sy'n cael ei ystyried gan Bwyllgor Trosolygu a Chraffu ac sy'n ymwneud â phenderfyniad y Cabinet neu Bwyllgor arall yr oeddech yn aelod ohono ar y pryd [Cyngor Sir yn unig] | |

.

**(2)** Mae Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi y gall Pwyllgor Safonau ganiatáu gollyngiadau yn y sefyllfaoedd canlynol:

(a) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw

(b) os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet yr awdurdod perthnasol y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (ch) neu baragraff (d) hefyd yn gymwys;

(c) yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, byddai anallu'r aelod i gymryd rhan yn newid cydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu bwyllgor yr awdurdod a fydd yn ystyried y busnes i raddau a fyddai'n debygol o effeithio ar y canlyniad;

(d) os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal;

(e) os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd;

(f) os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod;

(g) os yw'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolygu a chraffu'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol;

(h) os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i faterion ariannol neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; neu

(i) os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod o les i drigolion ardal yr awdurdod perthnasol i'r anallu gael ei godi, ar yr amod bod hysbysiad ysgrifenedig bod y gollyngiad yn cael ei ganiatáu yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn saith diwrnod a hynny mewn unrhyw fodd y gall ei bennu.

(j) os ystyrir ei bod yn briodol gwneud hynny yn yr holl amgylchiadau lle nad yw'n bosibl fel arall gwneud addasiadau rhesymol i ddarparu ar gyfer anabledd person